

Amgueddfa Cymru

Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Ebrill 2018-Ebrill 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. I gael copi o'r ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â Kristina Enticott, Rheolwr Adnoddau Dynol.

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2021

Cynnwys

Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb 2018-2021	3
1. Amrywiaeth yn y Gweithle - Ymgysylltu â Gweithwyr	3
2. Datblygu yn y Gweithle - Cadw Gweithwyr a Gwirfoddolwyr	3
3. Gwella Mynediad at Wasanaethau i Bobl Anabl	4
4. Gwella Mynediad i Wasanaethau ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	4
5. Prynu Nwyddau a Gwasanaethau	5
6. Comisiynu Gwaith a Rhaglennu	5
7. Arweinyddiaeth a Chydymffurfiaeth Gorfforaethol	6
8. Cyflog Cyfartal	7
Gweithio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.....	7

Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb 2018-2021

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu ei hamcanion cydraddoldeb yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy'r Ddeddf a'r saith nod llesiant.

'Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory – gweithredu yn fwy na geiriau yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol.'

Y Cenhedloedd Unedig

Bydd yr amcanion a'r camau gweithredu canlynol yn cael eu datblygu ymhellach gyda'r staff comisiynu, y Grŵp Amrywiaeth, a'u cymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Yna byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd, bydd datblygiadau yn dilyn yr ymgysylltu a bydd y Bwrdd yn cymeradwyo unrhyw newidiadau.

Amcanion Cydraddoldeb a Chamau Gweithredu ar Gydraddoldeb

1. Amrywiaeth yn y Gweithle - Ymgysylltu â Gweithwyr	
Amcan a chanlyniadau	Bydd gweithlu Amgueddfa Cymru yn adlewyrchu'n llwyr y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac mae ein holl waith recriwtio yn seiliedig ar ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. <ul style="list-style-type: none"> • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru lewyrchus
Cam Gweithredu 1	Datblygu Templed Cynllunio'r Gweithlu
Cam Gweithredu 2	Yr holl staff sy'n ymwneud â recriwtio a dethol yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol, gyda diweddariadau rheolaidd.
Cam Gweithredu 3	Monitro'r broses recriwtio, dadansoddi data ar dethol a phenodi ac adrodd i'r Grŵp Amrywiaeth. Rhoi camau cadarnhaol ar waith os nad yw dadansoddiad yn dangos llawer o arallgyfeirio o ran y gweithlu (gellid gosod terfyn amser).
Cam Gweithredu 4	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol i bob gweithiwr a gwirfoddolwr newydd fel rhan o'r broses gynefino.

2. Datblygu yn y Gweithle - Cadw Gweithwyr a Gwirfoddolwyr	
Amcan a chanlyniadau	Bydd pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn. <ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n fwy cyfartal
Cam Gweithredu 1	Dadansoddi Anghenion Hyfforddi'r gweithlu/gwirfoddolwyr.

Cam Gweithredu 2	Datblygu Strategaeth Hyfforddi ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, sy'n annog, yn cymell ac yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr i wneud cynnydd.
Cam Gweithredu 3	Datblygu a chefnogi cynllun mentora ar gyfer gweithwyr.
Cam Gweithredu 4	Rhoi mentrau gweithredu cadarnhaol ar waith i gynorthwyo staff Du a Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a staff anabl i fanteisio ar gyfleoedd datblygu gyrfa a gwella'r cyfleoedd hynny, o fewn Amgueddfa Cymru a'r tu allan iddi.
Cam Gweithredu 5	Sefydlu a/neu gefnogi rhwydweithiau cydraddoldeb i staff/gwirfoddolwyr a sicrhau bod ganddynt lais a chefnogaeth priodol

3. Gwella Mynediad at Wasanaethau i Bobl Anabl

Amcan a chanlyniadau	Cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru a defnyddio ein gwasanaethau drwy gael gwared ar rwystrau i fynediad. <ul style="list-style-type: none"> • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru iachach • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru o gymunedau cydlynus
Cam Gweithredu 1	Cynnal archwiliad o Amgueddfa Cymru a'n gwasanaethau o ran hygyrchedd i bobl anabl.
Cam Gweithredu 2	Datblygu canllawiau ar safonau hygyrchedd i gynnwys mynediad ffisegol, agweddol, gwybodaeth a strwythurol ac adolygu'r holl ddeunyddiau marchnata, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i ymwelwyr.
Cam Gweithredu 3	Sefydlu dull sy'n galluogi Grwpiau Gweithredu Anabledd i gyfrannu at y canllawiau ar safonau hygyrchedd a rhoi cyngor parhaus ar faterion mynediad.
Cam Gweithredu 4	Sefydlu dull sy'n galluogi sefydliadau celfyddydau anabledd megis Celfyddydau Anabledd Cymru i ddylanwadu ar ein rhaglen, er enghraifft drwy'r Fforwm Amrywiaeth.
Cam Gweithredu 5	Cynyddu ymwybyddiaeth yn y sefydliad am y Model Cymdeithasol o Anabledd drwy hyfforddiant a mentrau eraill.

4. Gwella Mynediad i Wasanaethau ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Amcan a chanlyniadau	Cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru ac yn defnyddio ein gwasanaethau. <ul style="list-style-type: none"> • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru iachach
Cam Gweithredu 1	Cynnal archwiliad o broffil demograffig ein hymwelwyr.

Cam Gweithredu 2	Nodi a chydweithio â sefydliadau partner i ddenu a gweithio gyda phobl o gefndiroedd amrywiol, er enghraifft drwy'r fenter Mwy a Gwell.
Cam Gweithredu 3	Adolygu'r holl ddeunyddiau marchnata, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i ymwelwyr er mwyn sicrhau bod neges 'o blaid amrywiaeth' yn cael ei chyfleu gan gynnwys yr holl feysydd cydraddoldeb.
Cam Gweithredu 4	Sefydlu dull sy'n galluogi sefydliadau celfyddydol Pobl Dduon ac Asaiidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ddylanwadu ar ein rhaglen.
Cam Gweithredu 5	Cynyddu ymwybyddiaeth yn y sefydliad o faterion yn ymwneud â hil drwy hyfforddiant a mentrau eraill.

5. Prynu Nwyddau a Gwasanaethau

Amcan a chanlyniadau	<p>Byddwn yn ymdrechu i fabwysiadu dull cymdeithasol gyfrifol o brynu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau a sicrhau bod pob proses gaffael yn cyd-fynd â'r ymrwymadau sydd yn y Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</p> <p>Byddwn yn ceisio datblygu a hyrwyddo cadwyni cyflenwi effeithiol, lleol, cynaliadwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru gydnerth • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n fwy cyfartal
Cam Gweithredu 1	Adolygu gweithdrefnau caffael, gan nodi pa wasanaeth sydd â'r gallu mwyaf i greu canlyniadau cymdeithasol.
Cam Gweithredu 2	Creu cynllun gweithredu sy'n cysylltu trefniadau caffael yn y dyfodol â materion cymdeithasol.
Cam Gweithredu 3	Ystyried pwysoli'r broses o ddethol cyflenwyr ar sail eu perfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â'u gwerth am arian.
Cam Gweithredu 4	Gwneud ein cynllun gweithredu ar gaffael yn ddogfen gyhoeddus, gan roi cyfle i ddarparu gyflenwyr gwel gwybod am ein disgwyliadau ymlaen llaw.
Cam Gweithredu 5	Sicrhau bod y gweithdrefnau caffael yn agored i bawb, gan roi hwb i werth cymdeithasol yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

6. Comisiynu Gwaith a Rhaglennu

Amcan a chanlyniadau	<p>Rydym yn cydnabod ein rôl unigryw o ran darparu cyfleoedd i ddangos cyfoeth diwylliant amrywiol y genedl drwy'r celfyddydau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru gydnerth • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru lewyrchus
Cam Gweithredu 1	Cynnal archwiliad o waith a gomisiynwyd a dadansoddi cyfansoddiad demograffig y cyfranwyr.

Cam Gweithredu 2	Datblygu mentrau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â bylchau yn y cyfraniad a ganfuwyd drwy'r archwiliad.
Cam Gweithredu 3	Datblygu dull o weithio mewn partneriaeth i annog comisiynau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
Cam Gweithredu 4	Sicrhau bod y gwaith a gomisiynir gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ei brif ffrydio ac nid dim ond yn ddigwyddiadau annibynnol sy'n dathlu diwrnodau rhyngwladol penodol neu ddigwyddiadau crefyddol.
Cam Gweithredu 5	Fel rhan o'r trefniadau adrodd blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, darparu data ar ddemograffeg y rhai a gomisiynwyd i wneud gwaith.

7. Arweinyddiaeth a Chydymffurfiaeth Gorfforaethol	
Amcan a chanlyniadau	Sicrhau arweinyddiaeth strategol a threfniadau llywodraethu, gan sicrhau bod y safonau'n uchel ac yn gyson ar draws pob maes cyfrifoldeb. <ul style="list-style-type: none"> • Cymru gydnerth • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru lewyrchus
Cam Gweithredu 1	Monitro perfformiad o ran amcanion y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb drwy'r Grŵp Amrywiaeth.
Cam Gweithredu 2	Adrodd yn flynyddol, gan nodi'r hyn fu'n llwyddiannus a meysydd sy'n peri pryder a sut y gellid gwella'r rhain.
Cam Gweithredu 3	Adrodd yn benodol i'r rhwydweithiau cydraddoldeb staff/gwirfoddolwyr, gan sicrhau bod ganddynt lais priodol yn y broses fonitro.
Cam Gweithredu 4	Sicrhau bod ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth am: <ul style="list-style-type: none"> • Yr Asesiadau o'r Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd • Ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu • Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol • Data sy'n ymwneud â niferoedd yr ymwelwyr a demograffeg ac unrhyw fentrau gweithredu cadarnhaol. • Gwybodaeth am sefydliadau partner sy'n cefnogi ein mentrau cydraddoldeb. • Mesurau gweithredu cadarnhaol wrth gomisiynu gwaith. • Gwybodaeth am gaffael a phrif ffrydio cydraddoldeb.
Cam Gweithredu 5	Cynnal adolygiad blynyddol o weithdrefnau caffael i asesu prif ffrydio cydraddoldeb.
Cam Gweithredu 6	Cynnal adolygiad blynyddol o hyfforddiant gweithwyr i sicrhau bod yr ymrwymadau a wneir yn Amcan Cydraddoldeb 2 yn cael eu bodloni.
Cam Gweithredu 7	Cydnabod ein statws fel model rôl ar gyfer sefydliad cynhwysol sy'n ymwybodol o gydraddoldeb a chyfleu'r neges hon drwy'r gwasanaethau a ddarparwn ac fel cyflogwr.

8. Cyflog Cyfartal	
Amcan a chanlyniadau	Lleihau'r bwloch cyflog rhwng dynion a menywod. <ul style="list-style-type: none"> • Cymru sy'n fwy cyfartal • Cymru lewyrchus
Cam Gweithredu 1	Cynnal Archwiliad Cyflog Cyfartal a nodi'r rhesymau dros unrhyw fwloch cyflog ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig lle mae'r data yn caniatáu.
Cam Gweithredu 2	Cynhyrchu cynllun gweithredu o fesurau i weithio tuag at ddileu unrhyw fwloch cyflog rhwng y rhywiau.
Cam Gweithredu 3	Cynnal Asesiadau o Effaith y cylch gwaith cyflog blynyddol ar Gydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig i sicrhau nad yw'r cynigion yn rhoi grwpiau gwarchoddedig dan anfantais.
Cam Gweithredu 4	Adrodd yn flynyddol ar ein bwloch cyflog rhwng y rhywiau.

Gweithio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Byddwn yn coleddu'r pum ffordd o weithio a nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	
1. Golwg hirdymor	Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i gael dealltwriaeth fanwl o'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol a'n helpu i gynllunio yn unol â hynny.
2. Atal	Deall a chydabod y meysydd allweddol i'w datblygu i sicrhau y gellir atal unrhyw broblemau rhag gwaethygu a'n bod yn gallu rheoli'r heriau sy'n codi yn y dyfodol.
3. Mabwysiadu dull gweithredu integredig	Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill a phartneriaid i gysoni ein holl Strategaethau Cydraddoldeb a datblygu amcanion a rennir yn erbyn y saith Nod, gan wneud cyfraniad ar y cyd at Gymru.
4. Cydweithio	Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus a phartneriaid eraill i chwalu'r rhwystrau a datblygu dealltwriaeth o fanteision cydweithio er mwyn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y sectorau gyda chynlluniau a rennir i fynd i'r afael â'r rhwystrau.
5. Cynnwys	Cymryd rhan mewn deialog ystyrlon gyda chymunedau, unigolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyflawni nodau cyffredin.